Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

By email

14th December 2017.

*Scroll down for English*

**I Brif Weithredwyr, Arweinwyr a Chadeiryddion Cyrff Cyhoeddus**

Annwyl Gyfaill,

## Fy mlaenoriaethau polisi

Mae cwmpas eang Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r cyfle i gyflawni'r Gymru a garem. Ond heb ffocws clir i fy ngwaith mae yna berygl na fydd y newidiadau sydd eu hangen yn cael eu gwireddu.

Yn unol ag awydd y Ddeddf i ennyn ymgyfraniad pobl mewn penderfyniadau, yn gynharach eleni cychwynnais sgwrs i gasglu syniadau ar y materion, yr heriau a'r cyfleoedd mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Ymgysylltais â dros 1,300 o bobl, cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus arbenigwyr polisi yn ogystal â grwpiau penodol megis pobl ifanc ddigartref, menywod mudol a'r rhai oedd wedi goroesi camdriniaeth ddomestig. Rwy'n ddiolchgar i'r rhai a gyfrannodd syniadau, safbwyntiau a phrofiadau.

Yn dilyn y broses hon, rwyf wedi nodi chwe maes blaenoriaeth a fyddant yn fy marn yn mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd y problemau a wynebir gan genedlaethau'r dyfodol ac yn helpu i gyflawni cymaint â phosibl o ganlyniadau.  Maent yn berthnasol i ddwy thema eang:

(1) Creu'r seilwaith cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol lle rhoddir y ffocws ar:

- **Stoc tai**
- **Cynhyrchu ynni ac effeithlonrwydd**
- **Cynllunio trafnidiaeth**

(2)  Paratoi pobl ar gyfer y dyfodol lle rhoddir y ffocws ar:

- **Sgiliau ar gyfer y dyfodol**
- **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

- **Modelau amgen ar gyfer gwella iechyd a llesiant – a elwir yn aml yn 'bresgreibio cymdeithasol'**

Buaswn yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar y meysydd hyn i geisio creu newid, mewn dull rhagweithiol, yn nhermau amlygu'r materion a'r

datrysiadau posibl ar lefel cenedlaethol a lleol. Fodd bynnag, ni ellir gadael i hyn eu hatal rhag ystyried materion eraill fel rhan o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf hon. Byddaf hefyd yn ennyn ymgyfraniad y bobl a'r sefydliadau sydd yn y lle gorau i sbarduno'r newidiadau angenrheidiol, yn cynnwys gosod yn eu lle fecanweithiau ar gyfer sicrhau mewnbwn oddi wrth y rhai hynny â 'phrofiadau uniongyrchol' perthnasol.

Bydd y meysydd blaenoriaeth hyn yn sail i fy holl weithgareddau byddaf wrthi'n datblygu mwy o fanylion amdanynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Os rydych chi neu'ch rhwydweithiau'n gweithio yn unrhyw un o'r chwe maes blaenoriaeth ac yn dymuno gweithio gyda ni, os gwelwch yn dda cysylltwch â ni trwy cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf

Bydd eleni a'r ddwy flynedd nesaf yn hanfodol bwysig ar gyfer gosod y sylfeini ar gyfer y newid sydd ei angen wrth i'r Ddeddf gael ei gweithredu am y tro cyntaf.

Rwyf yn awyddus i gynorthwyo'r rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n dymuno gwneud y newidiadau gofynnol, ac nid oes arnaf ofn herio'r rhai nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rwyf wedi ymrwymo i hyrwyddo'r angen i ffocysu ar y canlyniadau a wireddir, a gobeithiaf y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar ran pobl Cymru mor benderfynol â minnau i sicrhau bod y penderfyniadau'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Rwyf eisoes wedi darparu cymorth a her eleni i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant a'u hamcanion llesiant, a byddaf yn parhau i gynnig cyngor ymarferol wrth i chi gynllunio'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i gwrdd â'r amcanion hyn a rhoi at ei gilydd eich cynlluniau llesiant sydd i'w cyhoeddi erbyn Mai 2018.

Byddaf yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus i ddatblygu cymorth sy'n annog eich gwaith i fod yn Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol drwy dri darn allweddol o waith: Celfyddyd yr Hyn sy'n Bosibl, Labordai Byw a Chwmwl o Arloeswyr. A byddaf hefyd yn parhau i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i

sbarduno'r canlyniadau cywir a pharatoi'r ffordd ar gyfer adroddiad cyntaf Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2020.

Cymerwch gip ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yma.

## Adroddiad Blynyddol

Yn olaf, gallwch weld manylion ein blwyddyn gyntaf o weithredu yn ein Hadroddiad Blynyddol. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi dogfen gryno i'w wneud yn fwy hygyrch.

Bu fy ffocws ar ymgysylltu â chyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, eu cynorthwyo a'u herio wrth i chi gychwyn ar eich siwrnai i weithredu'r ddeddfwriaeth hon, Yn ogystal â chwrdd â channoedd o grwpiau eraill, sefydliadau ac unigolion, rwyf hefyd wedi cyrchu nifer o bartneriaethau i facsimeiddio fy adnoddau a chydweithio'n effeithiol.

Fy neges allweddol yw bod yn rhaid i ni groesawu ethos ac egwyddorion y Ddeddf i sbarduno newid gwirioneddol ar gyfer gwireddu'r Gymru a garem a pheidio gweld y Ddeddf fel dim mwy nag un ymarfer ticio blychau a chydymffurfio arall.

Rwyf i a fy nhîm o'r farn bod y sgyrsiau rheolaidd hyn gyda chi a'ch cydweithwyr a'r cyfle i fynychu cyfarfodydd wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi rhoi dealltwriaeth i ni o'r dulliau gorau o roi cymorth i chi a'ch herio wrth symud ymlaen. Gobeithio bod y cysylltu rheolaidd hyn hefyd wedi bod yn ddefnyddiol i chi ac wedi rhoi peth arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os yr ydych yn dymuno ymgyfrannu, os gwelwch yn dda cysylltwch â ni.

******

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
**cenedlaethaurdyfodol.cymru**

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
**futuregenerations.wales**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

**To Chief Executives, Leaders and Chairs of Public Bodies**

Dear Colleague,

## My policy priorities

The wide scope of the Well-being of Future Generations Act provides the opportunity to deliver the Wales we want. But without a clear focus to my work there's a risk that the changes needed will not be delivered.

In the spirit of the Act to involve people in decisions, earlier this year I started a conversation to gather views on the big issues, challenges and opportunities facing future generations. I engaged with over 1,300 people, representatives from public bodies and public services boards, policy experts, as well as specific groups, such as homeless young people, migrant women and domestic abuse survivors. I am very grateful to those who fed in their ideas, views and experiences.

Following this process, I have identified six priority areas which I believe will address the root causes of problems facing future generations and help achieve the best multiple outcomes. They relate to two broad themes:

(1) Creating the right infrastructure for future generations within which the focus will be:

- **Housing stock**
- **Energy generation and efficiency**
- **Transport planning**

(2) Equipping people for the future within which the focus will be:

- **Skills**
- **Adverse childhood experiences (ACEs)**
- **Alternative models for improving health and well-being - often called 'social prescribing'**

I would welcome working with public bodies and public services boards on these areas to proactively pursue change in terms of highlighting the issues and potential solutions, both at national and local level. This must not however limit you considering other issues as part of your duties under this Act. I will also seek to involve the people and organisations best placed to drive the changes needed including putting in place mechanisms for securing input from those who have 'lived experiences'.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

These priority areas will underpin all of my activities and I am developing more detail around them over the coming year. If you or your networks are working in any of the above six priority areas and want to work with us please get in touch on contactus@futuregenerations.wales .

## What we will do over the next 12 months

This year and the next two will be crucial in laying the foundations for the cultural change that is needed as the Act is implemented for the first time.

I am keen to support those delivering public services who want to make the required changes, and I'm not afraid to challenge those who do not. I am committed to championing the need to focus on the outcomes achieved and I hope that those who take decisions on behalf of the people of Wales will be as determined as me to ensure that the decisions are fit for both our current and future generations.

I have already provided support and challenge to public services boards on their well-being assessments and well-being objectives this year, and I will continue to offer practical advice as you plan the steps you will take to meet these objectives and put together your well-being plans to be published by May 2018.

I will work with public bodies to develop support that encourages your work to be 'Fit for Future Generations' through three key pieces of work:  Art of the Possible, Live Labs and Cloud of Innovators. And I will also continue to work with the Wales Audit Office to drive the right outcomes and to prepare the way for the first Future Generations report in 2020.

Take a look at our future plans here.

## Annual Report

Finally, you will find details of our first year of operation in our Annual Report.  I have also published a summary document to make it more accessible.

My focus has been to engage with, support and challenge public bodies and public services boards as you started on your journey to implement this legislation. As well as meeting hundreds of other groups, organisations and individuals, I also entered into several partnerships to maximise my resources and collaborate effectively.

My key message has been that we must embrace the ethos and principles of the Act to drive real change towards the Wales we want and not view it as another tick box compliance exercise.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

I and my team have found the regular conversations with you and your colleagues, and the opportunity to attend meetings, very helpful in giving us an understanding of how we can best provide you with support and challenge going forward.  I hope you have also found these regular touch points useful and they they have given you some guidance along the way.

I look forward to continuing working with you.  If you have any questions or comments, don't hesitate to get in touch.

Yn gywir / Yours sincerely,



Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
**cenedlaethaurdyfodol.cymru**

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
**futuregenerations.wales**